# SL(5)648 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"), yn benodol Rhan 4 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â rhestri cyflawnwyr deintyddol, er mwyn adlewyrchu'r newid yn sefyllfa cyflogaeth deintyddion sylfaen.

Ar hyn o bryd, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintydd sylfaen, at ddibenion ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, fod wedi ei gyflogi o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda hyfforddwr cymeradwy, sy'n ddeintydd at ddibenion y prif Reoliadau.

O 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"The 2020 Regulations will not be subject to public consultation. The Statutory Instrument concerns the principle of amending operational procedures which affect a small number of key stakeholders who have participated in the development of the proposal with HEIW from its inception.*

*Key stakeholder representatives were invited by HEIW to discuss and develop the draft proposal with the finally agreed proposal published inviting colleagues with an interest across Wales to provide their comments.*

*The British Dental Association (Wales) have noted the introduction of the amending Regulations."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

*"On this occasion, a Regulatory Impact Assessment has not been carried out. The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy. There are no additional costs associated with the 2020 Regulations with no impact on the private, local government or third sector foreseen."*

Fodd bynnag, ar y wyneb, ymddengys bod y Rheoliadau yn cefnogi newid mewn polisi drwy sicrhau mai gydag un cyflogwr arweiniol yw'r contract cyflogaeth ar gyfer deintyddion sylfaen, yn hytrach na gydag unrhyw hyfforddwr cymeradwy arall. Nodir hefyd bod yr adran "*Purpose & intended effect of the legislation"* yn y Memorandwm Esboniadol yn datgan:

*"The Principal Regulations allow NWSSP to accept FDs onto the Performer Lists subject to a 3 months 'grace period' but currently require the FD to have a contract of employment with an approved training practice. The Regulations will make the required amendments to the Principal Regulations to facilitate FDs full inclusion to the Dental Performers List from 1 December 2020 and to align the applicable legislative provisions with the* ***change to policy****."* [ychwanegwyd pwyslais]

Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hefyd yn nodi:

*"Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi."* [ychwanegwyd pwyslais]

Gofynnir am eglurhad pellach, felly, o'r cyfiawnhad ar gyfer diffyg asesiad effaith rheoleiddiol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Tachwedd 2020**